

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 2 Rhif 12

Yn rhad ac am ddim

Mawrth 2022



Cennin Pedr

Dewi Sant

gan Rob Evans

Doth Cristnogaeth i'r ynysodd yma, yn ôl y chwedl, diolch i Joseff o Arimathea a'i ddilynwyr a wnaeth ymweld ag Ynys Afallon efo'r Greal Sanctaidd. Hyd heddiw maen nhw'n dweud bod ei Ddraenen Sanctaidd yn blodeuo bob dydd Nadolig. Gwir neu beidio roedd Cristnogaeth yn y wlad yma cyn i'r Rhufeiniaid lanio yn 43OC. Roedd gan y Rhufeiniaid eu duwiau ei hunain ond roedden nhw'n parchu bod gan y Celtiaid eu duwiau hefyd. Meddyliwch - yr holl Dduwiau yn bodoli ac yn byw yn gytûn!

Ond wedyn yn 383 OC wnaeth Ymerawdwr Macsen Wledig a'i fyddin gadael Brydain a dyna oedd diwedd yr ymerodraeth ym Mhrydain. Roedd rhaid i ni amddiffyn ein hunain o hynny ymlaen, ond o'r dwyrain oedd y bygythiad a thra oedd Lloegr yn brwydro yn erbyn paganiaid roedden ni, yn ein gwlad ni, yn cael yr

heddwch i ddatblygu ein Cristnogaeth. Dyma oedd dechrau Oes y Seintiau Celtaidd.

Cafodd Dewi ei eni tua 515 OC yn ystod storm fawr wrth ymyl glogwyn ger Tŷ Ddewi, mae adfeilion Capel Non yn dangos i ni'r union le, ac mae ffynnon gerllaw sydd â nodweddion iachau. Roedd Dewi'n perthyn i deuluoedd pwysig iawn, teulu Cunedda ar ochr ei dad a theulu Brychan Brycheiniog ar ochr ei fam. Cafodd ei addysg yn Hen Fynyw ger Aberaeron ac wedyn sefydlu mynachdy yng Nglyn Rhosyn yr union le mae Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi'r dyddiau yma.

Yn yr un cyfnod mi wnaeth Sant Illtyd sefydlu coleg yn Llanilltud Fawr ac os dach chi'n rhyfeddu am yr holl seintiau yn gysylltiedig â Chymry o fan hyn y daeth llawer ohonyn nhw. Yn ôl y sôn mae 2,000 o seintiau wedi eu claddu ar Ynys Enlli.

Arhoswch am eiliad i feddwl am hynny.

Mynach oedd Dewi yn crwydro o le i le yn pregethu a gallwn ni weld pa mor eang oedd yr

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

ardal ble oedd yn pregethu wrth ystyried yr eglwysi sydd wedi eu cysegru yn ei enw. Felly mae'n cynnwys sir Benfro ac i fyny at Aberaeron i'r gogledd a sir Gaerfyrddin a Gŵyr i'r dwyrain ond hefyd mae ganddo eglwysi yng Nghernyw, Iwerddon a Llydaw hefyd. Mae hynny'n dweud wrthon ni ei fod ddim yn ofni mynd dramor. Roedd cysylltiad naturiol efo Iwerddon wrth gwrs, yn ei ddydd roedd Sant Padrig yn croesi'r môr i sir Benfro yn gyson ac roedd Dewi'n gwneud yr un peth. Roedd Dewi a Teilo yn ffrindiau a bydden nhw'n mynd â'i gilydd dros y moroedd yn ymledu'r gair. A pheidiwch â meddwl bod nhw'n cadw at lefydd agos mae sôn bod y ddau wedi mynd mor bell â Jerwsalem.

Ac mae hynny'n rhywbeth i feddwl amdano hefyd. Dychmygwch, mae'n ddiwrnod braf a'r ddau efo ychydig o oriau heb ddim byd i'w wneud. Teilo yn gofyn yn sydyn "Ti'n ffansio trip i Jerwsalem Dewi?" a Dewi yn ateb "Wel ia, pam lai, well i mi wneud ychydig o frechdanau felly." Ac i ffwrdd â nhw. Mae lluniau ar gael am y fath o gychod oedden nhw'n defnyddio, pethau tebyg i gwrwgl ond efallai yn fwy na'r rhai byddwch yn gweld ar y Teifi. Gan fod llongau masnacha yn hwylio'r moroedd mae'n debyg bydden nhw wedi cymryd mantais o ryw ffordd mwy diogel o deithio hefyd.

Gyda llaw, er mwyn cyrraedd Môr y Canoldir roedd hi'n bosib defnyddio'r afonydd yn Ffrainc, cyrraedd y Rhone a hwylio lawr i Marseilles.

Yn ei bregeth olaf, cyngor Dewi Sant i ni oedd "Brodyr a chwiorydd, byddwch lawen, cadwch y ffydd, a gwnewch y pethau bychain hynny a welsoch ac a glywsoch gennyf i."

Ond nid dim ond y pethau bychain wnaeth Dewi, ein nawddsant.

Gwisgwch eich cennin Pedr â balchder!

Beth am Daith Gerdded?

gan Sylvia Harries

Am 7.20 yn y bore un Sadwrn gwlyb iawn yn fis Ionawr, cychwynnodd chwe fforiwr dewr o Benarth ar gymal cyntaf eu hantur newydd sef cerdded lein rheilffordd Calon Gymru.

Mae'r llinell yn rhedeg am 141 o filltiroedd rhwng Llanelli a Craven Arms yn Swydd Amwythig, ac ar hyd y ffordd gallwn gymryd sawl

anadl i edrych ar y golygfeydd ar ei hyd yn ogystal â dysgu am hanes diwydiannol y trefi a adeiladwyd i wasanaethu'r llinell.

Mae'r llwybr wedi ei gynllunio o amgylch y gorsafoedd trên. Mae pob rhan yn amrywio rhwng 8 i 14 milltir, ac mae hynny'n dibynnu ar y pellter i'r orsaf nesaf a hawliau i'r llwybrau cyhoeddus agosaf.

Er mwyn cerdded y rhan gyntaf, gyrron ni i Bontarddulais, ble mae lle i barcio ger yr orsaf. Oddi yma dalon ni'r trên i Lanelli. Ro'n i'n lwcus bod y trên am ddim o fis Hydref tan y 31ain o fis Mawrth, os dych chi wedi ymddeol.

Bron cyn gynted ag y gadawon ni, gallwn ni weld bod Llanelli yn le arbennig, gyda phosibiliadau eang i ddod i adnabod a cherdded y Llwybr Treftadaeth Gymunedol. Doedden ni erioed wedi gweld cymaint o blaciau glas mewn un lle. Enillodd y dref arian treftadaeth er mwyn trawsnewid sied nwyddau'r rheilffordd hanesyddol. A hefyd erbyn hyn roedd y glaw wedi stopio. Unwaith i ni rwygo ein hunain o'r holl hanes arbennig hyn cychwynnon ni ar daith gerdded o 13 milltir.

Dilynon ni Lwybr yr Arfordir gan fynd heibio'r tai modern, drud a hardd lle'r oedd hen bentrefi Machynys a Bwlch y Gwynt, bu llawer o ddadlau pan symudodd y bobl allan er mwyn ailddatblygu'r ardal hon. Hefyd gallwch chi weld Goleudy Chwitffordd, y goleudy haearn cyntaf, cafodd ei gynllunio gan William Jernegan a'i greu yn 1865 yng Ngwaith Haearn Mynachlog Nedd. Aethon ni heibio cwrs golff, trwy'r gwlypdiroedd i aber y Lluchwr. Arhoson ni yma am goffi a byrbryd canol bore, gwyllo'r gylfinir ar y tywod a gwrando ar y ddrudwen yn grwgnach. Unwaith i ni groesi'r afon, troeon ni am y tir ac i gyfeiriad Bwlchymynydd. Wel, dim mynydd sy yma felly pam yr enw Bwlchymynydd? Roeddwn ni'n ffodus i gwrdd â gwraig oedrannus a esboniodd bopeth i ni. Roedd y mynydd wedi bod yn domen sbwriel enfawr ac wedi hanner claddu'r eglwys leol. Mae'r domen sbwriel wedi mynd erbyn hyn a chafodd y mynydd fel petai ei drawsnewid i barc ar lan yr afon.

Aethon ni ymlaen drwy dir fferm a gwelon ni ein hŵyn cyntaf y tymor. Roedd y llwybr yn wlyb iawn a nawr deallon ni pam nad oedd modd mynd arno ar lanw uchel. Mae'r afon fan yma yn

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

hynod o beryglus. Mae dau lwybr yma, y llwybr isel a'r llwybr uchel.



Ger Llwynadam roedd hi'n amser cinio a daeth y glaw eto. Dim ond cawod ysgafn oedd hi yn ffodus, ac ar ôl y glaw daeth llygedyn o haul allan. Yma, aethon ni heibio fferm (SSSI) a'r cyntaf o'r tri mwnt yn yr ardal, un wrth ochr y bont rheilffordd hir a phrydferth. Mae'r afon yn llai nawr wrth i ni gerdded ac mae'r llwybr yn dilyn ei dolau hardd. Dan yr M4, mewn i goetir a dyna Bontarddulais o'n blaen. Mae llawer o hanes yma hefyd ond byddaf yn sôn am hynny y tro nesa..

Y tro nesa - Rhydaman i Bontarddulais

Roedd y stori yma yn dod ag atgofion yn ôl i mi achos wnes i'r daith rhai blynyddoedd yn ôl a dw i'n gwybod yn iawn pa mor wlyb yw'r caeau. Dw i'n cofio cyrraedd y pwynt lle roeddwn yn mynd fwy a mwy grympi wrth bob cam. Welais y bont ond roeddwn i'n falch i droi nôl. Pob lwc ar y cymal nesaf! Rob

Hobart, Tasmania

gan Robin Roberts



Ynys tua'r un maint ag Iwerddon neu'r Swistir yw Tasmania. Mae tua 500,000 o bobl yn byw yma, hanner y rhain yn Hobart, y ddinas fwyaf. Mae Hobart yn eistedd ar lan Afon Derwent gyda Mt Wellington (kunanyi) yn edrych dros y

ddinas. Mae llawer o lefydd prydfarth iawn yn Tasmania.

Mae U3A wedi bod yn cynnal cwrs yn y Gymraeg ers sawl blwyddyn. Ar hyn o bryd mae naw ohonom yn ein dosbarth. Rydym wedi bod ar wyliau hir yr haf dros y Nadolig ac Ionawr. Ond yn awr y mae'n bryd dychwelyd i'n cyfarfodydd bob pnaawn Llun. Mae yna reolau Cofid newydd i feddwl amdanyn nhw hefyd.

Nodyn – Od iawn i ni yng Nghymru yw darllen y frawddeg 'Rydym wedi bod ar wyliau hir yr haf dros y Nadolig ac Ionawr.' Ond diolch Robin am agor y ffenest er mwyn i ni brofi bywyd yr ochr arall i'r byd. Dw i'n sicr bod pawb yn edrych ymlaen at fwy o newyddion am eich bywyd 'down under'. Rob

Taith Gerdded i Ddysgwyr

Dydd Sul 24ain Ebrill yn Nhyndyrn

Manylion ar dudalen 14

Y Gwanwyn

gan Rob Evans



Ar yr ail o Chwefror es i allan am dro yn gynnar, roedd gwynt ddoe wedi symud i rywle arall ac wedi gadael ni i fwynhau diwrnod tawel a chynnes. Iawn, roeddwn i wedi gwisgo dillad cynnes wrth gwrs ond doedd dim gwynt oer ar fy wyneb. Tan y diwrnod yna mi fyswn wedi gwisgo menig ond, fel sydd yn digwydd pan dach chi'n mynd yn hyn, roeddwn wedi anghofio nhw – ond doedd dim ei hangen. Roeddwn yn cael y teimlad bod y gwanwyn ar fin cyrraedd. Erbyn hanner awr wedi saith roedd y gorwel yn binc i gyd ac roedd yr adar yn canu ym mhob man. Mae dyddiau gwell i ddod!

Yn yr hydref ar ôl blynyddoedd o ddioddef gardd flêr o flaen y tŷ roeddwn wedi penderfynu tynnu popeth allan, cael gwared â'r planhigion a'r holl chwyn ac ailgychwyn o'r dechrau. Y peth cyntaf i wneud oedd gosod ochr plastig er mwyn

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

cadw'r lawnt a'r gwely blodau ar wahân. Wedyn y gwaith pleserus o fynd i'r ganolfan garddio a phrynu planhigion er mwyn cael lliwiau gwahanol trwy'r flwyddyn, gwahanol fathau o fylbiau hefyd. Mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr yn barod ac mae gwell i ddod. Heddiw nes i sylwi bod crocws melyn yn dechrau dangos ei liwiau.

Rownd y gornel ac o flaen cartref gofal mae llond gwely o gennin Pedr ac roedd gweld nhw'n mynd â fy meddwl yn ôl i fy nyddiau ysgol a dydd Gŵyl Dewi. Prin iawn oedden ni'n gallu dangos balchder am fod yn Gymry wrth wisgo cennin Pedr, doedden nhw byth mewn blodau ar Fawrth y cyntaf. Yn ffodus mae gennym ddewis yma yng Nghymru naill y cennin neu'r cennin Pedr. Y cennin oedd hi bob tro i ni ac roedd y cyfarfod boreol yn yr ysgol yn drwm o oglau cennin. Roedd llawer o'r hogiau yn byw ar ffermydd ac roedd cystadleuaeth frwd rhyngddynt hwy am y cennin mwyaf. Roedd yr oglau'n llawer gwaeth wrth i'r dail cael eu cnoi yn frwdfrydig. Pan ddoth amser cinio nid oedd yn syndod nad oedd chwant bwyd ar y meibion fferm!

Dyddiau da!

Ysbrydolaeth


gan Jeanne Pendergast

Yn wahanol i'r dysgwyr eraill sydd wedi ysgrifennu ar gyfer Y Wennol (mis Chwefror, Tudalen y Dechreuwyd) dw i ddim yn Gymraes a does dim cysylltiad teuluol â Chymru gyda fi. Dw i'n hoffi ieithoedd, ag un diwrnod pan glywais i gân gan John ac Alun (Y Chwarelwr) mewn dosbarth dawn, roedd eisiau arnaf i wybod beth oedd ystyr y geiriau. Dyma le oedd popeth wedi cychwyn.

Ers hynny dw i wedi ymweld â Chymru ddwywaith, a ches i lawer o hwyl yno gyda phobol dw i wedi cwrdd â nhw drwy'r iaith. Dw i

hefyd yn mwynhau darllen, a fy hoff lyfr hyd at hyn ydy "Yr Eumenides" gan Daniel Davies.

Dw i'n dymuno pob lwc i bawb sy'n dysgu Cymraeg. Fyddwch chi ddim yn ei ddifaru.



Nodyn. Dw i'n ffan fawr o lyfrau Daniel Davies ac roeddwn yn meddwl mod i wedi darllen pob un ond mae'n amlwg bod 'Yr Eumenides' wedi syrthio trwy fy mysedd. Fy ffefryn i yw 'Allez Les Gallois' sydd wedi ei leoli yn Ffrainc yn ystod gemau'r Euros. Mae'n fath o lyfr sydd yn gwneud i chi chwerthin yn uchel. Dw i'n mynd i'w dynnu oddi ar y silff ac eistedd i lawr i'w ail-ddarllen felly, esgusodwch fi ond mi fydda i'n brysur am ychydig o ddyddiau. Ta ta! Rob

Dod i adnabod eich ardal yn well

Beth am ddod at eich gilydd i sefydlu grŵp cerdded? Does dim rhaid i chi gerdded yn bell ond mae'n gyfle da i adnabod eich gilydd yn well a hefyd i ddod ar draws llefydd newydd i gerdded. Trîwch gael arweinydd gwahanol bob wythnos er mwyn sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i arwain.

Pwy ag ŵyr ble fydd hynny'n arwain?

A wnewch chi basio'r Wennol ymlaen os gwelwch yn dda?

Dw i eisiau cael mwy o bobl i'w ddarllen a mwy o bobl i ysgrifennu erthyglau.

Beth amdanoch chi? Byddech chi'n hapus i ysgrifennu rhywbeth? Mae'n hawdd. Meddyliwch fod chi'n siarad efo ffrind ac yn sôn am eich gwyliau neu beth bynnag. Wedyn rhwch hynny ar bapur, bydda i'n gwneud yn siŵr bod popeth yn iawn, felly, peidiwch â phoeni

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Tudalen y Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

John Wilson

John ydw i. Nes i symud i Gymru tair blynedd yn ôl. Roeddwn yn hoffi ieithoedd yn yr ysgol a dyna pam dw i wedi dechrau dysgu Cymraeg. Dw i'n mwynhau'r dosbarth ac mae pawb yn edrych ymlaen at ddiwedd Cofid a chael cyfarfod a mynd am dro neu gael paned yn y caffi.

Roeddwn i'n byw yn Sheffield cyn symud i Gymru ac mae'n braf byw mewn lle tawel ac mor agos at y cefn gwlad. Dw i'n hoffi gwylio adar ac mae llawer yn dod i'r ardd. Dros y gaeaf dw i wedi gweld robin goch, titw tomos las, mwyalchen, piod, sgrech y coed, ysguthan a llawer mwy.

Titw tomos las - bluetit

Mwyalchen - blackbird

Pioden - magpie

Sgrech y coed - jay

Ysguthan - pigeon

Margaret Perry

Bore da pawb. Fy enw i yw Margaret, dw i wedi ymddeol ac yn byw gyda fy ngŵr. Mae gennym ni dri o blant a chwech o wyrion. Dyn i'n gweld eisiau nhw. Pan mae Cofid yn dod i ben dyn ni'n mynd i gael parti mawr. Bydd yn braf gweld y teulu unwaith eto. Dyn ni wedi gweld nhw ar Zoom ond dw i'n edrych ymlaen at eu gweld nhw eto a chael chwarae efo nhw a chael hwyl a chwerthin.

Mae fy ngŵr a finnau yn hoffi cerdded ac wedi bod yn cerdded llwybr yr arfordir. Ers mis Awst llynedd dyn ni wedi cerdded o Borth i Lanon a'r flwyddyn yma dyn ni'n gobeithio cyrraedd Aberteifi. Mae'n cadw ni'n iach!

Llwybr yr arfordir - the coastal path

Iach - healthy

Taith Gerdded i Ddysgwyr

Dydd Sul 24ain Ebrill yn Nhyndyrn

Manylion ar dudalen 14

Eunice

Fy enw i yw Eunice. Dw i ddim yn byw yn unman (anywhere). Dw i'n crwydro (to wander) dros y wlad i gyd. Yn ddiweddar (lately) dw i wedi bod yn ymweld â (to visit) Chymru. Maen nhw'n dweud (they say) bod Cymru yn wlad groesawgar (welcoming) ond dw i'n anghytuno (to disagree). Pan dw i'n cyrraedd (to arrive) mae pobl yn cau'r drysau (close their doors) ac yn aros i mewn (to stay in), dydy hynny ddim yn deg (not fair) Efallai (perhaps) bod pobl yn meddwl mod i'n hirwyntog (long-winded) ond dw i ddim ond eisiau bod yn gyfeillgar (friendly).

Dw i ddim ond ar y byd yma (in this world) am amser byr (for a short time). Dw i'n chwilio am (looking for) le tawel (quiet) lle mae'r môr yn las (the sea is blue) ac mae'r haul yn tywynnu (the sun is shining) ond yr unig beth (the only thing) dw i'n gweld yw cymylau duon (black clouds) a moroedd tymhestlog (tempestuous seas).

Dw i'n hoffi coed, maen nhw mor osgeiddyg (graceful) ond pan dw i'n cofleidio nhw (to embrace them) maen nhw'n gorwedd i lawr (to lie down) yn sydyn (suddenly). Dydy hyn ddim yn gyfeillgar (friendly).

Roedd pobl wedi dweud (people have said) bod Cymru yn wlad brydferth (beautiful) ond pan dw i'n stopio ac yn edrych tu ôl i mi (to look behind me) dw i'n gweld blerwch (untidyness). Yn eich gerddi (gardens) mae eich dodrefn (furniture) dros y lle i gyd (all over the place). Mae eich biniau (your bins) yn rowlio ar y llawr (rolling on the ground) ac mae sbwriel (rubbish) ym mhob man (everywhere). Mae ffens eisiau ei drwsio (needing to be mended) fan hyn (here) a sied eisiau to newydd fan draw (over there). Ych a fi!

Dw i'n gandryll! (furious) ac eisiau dweud mwy ond does dim digon o le!

Deudes i fod i'n hirwyntog do! (I said I was long winded, didn't I!)

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Beth fydddech chi'n gwneud pan mae eich dosbarth Cymraeg yn dod i ben?

Ar ôl cyfnod hir o astudio ac wedi cyrraedd safon digon uchel i gael sgwrs efo'ch cyd ddysgwyr bydd yn siomedig os nad ydych yn cael cyfle i fynd ymlaen efo'ch iaith. Mae'n anodd torri mewn i'r byd Cymraeg, does dim drws amlwg i chi agor.

Does dim ateb syml ond un peth allwch chi wneud yw creu grŵp yn cynnwys eich cyd ddysgwyr, ac wrth gwrs does dim rhaid i chi aros tan ddiwedd eich cwrs. Gwnewch o heddiw! Gofynnwch i'ch tiwtor am amser ar ddiwedd y dosbarth i grybwyll y syniad i'r dosbarth.

Mae'n rhaid i'ch cyfarfodydd bod mewn lle gweledol, yr holl bwynt yw i chi cael eich gweld a'ch clywed. Cyn bo hir mi fydd rhywun yn dod i siarad â chi ac efallai yn rhoi gwahoddiad i chi ymuno â chymdeithas Cymraeg lleol. Mae pethau fel hyn yn digwydd ac yn sydyn mae'ch byd yn newid. Dyma beth ddigwyddodd ym mhentref Southgate ar Gŵyr. Roedd y grŵp lleol wedi bod yn cyfarfod mewn caffi lleol bob dydd Mawrth. Roedd pawb yn credu nad oedd neb yn siarad Cymraeg yn Southgate tan i'r grŵp ddechrau cyfarfod. Erbyn hyn mae pobl yn cael eu clywed yn siarad Cymraeg tu allan yn y pentref. Pan mae Cymry Cymraeg yn eich clywed yn siarad yr iaith mi fydden nhw'n dod atoch chi a gofyn am eich hanes! Dyna sut ydan ni!

Hyd yn oed os oes cymdeithasau Cymraeg yn eich ardal mae'n cymryd dipyn o ddewrder i ymuno ag un ar eich pen eich hunan, ond fel grŵp – yn llawer haws.

Os dach chi'n ddigon lwcus bod gangen o Ferched Y Wawr yn eich ardal neu fod Cymdeithas Edward Llwyd yn cael un o'u teithiau yn lleol peidiwch â cholli'r cyfle.

Mae'r byd Cymraeg yn werth ei gyrraedd – dyna eich gwobr am weithio mor galed!

What will you do when your Welsh course comes to an end?

After a long period of studying and having reached a standard high enough to have a conversation with your fellow learners it would be a shame if you didn't have the chance to carry on with the language. It's not easy to break into the Welsh world, there is no obvious door.

There isn't an easy answer but one thing you can do is to create a group with your fellow learners and you don't have to wait until the end of the course. Do it now! Ask your tutor for some time at the end of the class to share this idea with the others.

Your meetings should take place in full view, the whole point is for you to be seen and heard. Before long someone will come and talk to you and maybe invite you to their Welsh society. These things happen and suddenly your world is changed. This is what happened in the village of Southgate on Gower. The local group had been meeting every Tuesday in a local café. Everyone was under the impression that there were no Welsh speakers here until the group started meeting. And by now Welsh conversations can be heard around the village. When Welsh speakers hear you speaking Welsh they'll come and talk to you and ask all about you!

That's what we are like!

Even if there are Welsh societies in your area it takes a bit of courage to join them on your own but as a group – much easier!

If you are lucky enough to have a branch of Merched y Wawr (for the ladies) in your area or Cymdeithas Edward Llwyd have arranged a walk locally – don't miss the chance.

The Welsh world is worth reaching and it is your prize for working so hard!

Your welcome to the Welsh world is not just in
the hillsides and in the vales.
It is everywhere. Make sure you find it!
Our Welsh language needs your presence!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Coffi Coaltown

gan Rob Evans



Dw i'n hoffi coffi, na dw i wir yn hoffi coffi. Ond mae'n rhaid i'r coffi fod yn gryf heb siwgr na llefrith - espresso go iawn! Mae gen i, hyd yn oed, fy mheiriant coffi fy hun sydd yn malu'r ffa ac yn tywallt yr hylif blasus du i'r cwpan. Mmm, ardderchog!

Ond tan yn ddiweddar dw i wedi bod yn prynu'r ffa o'r archfarchnad ac, mae'n rhaid i mi ddweud, mae'r ansawdd yn amrywio. Yn ddiweddar dw i wedi bod yn prynu'r ffa o gwmni Coaltown yn Rhydaman. Maen nhw'n cynnig gwasanaeth trwy'r post ond dw i wedi bod yn mynd i Rydaman i gael fy nghyflenwad. Mae ganddyn nhw gaffi ac wrth agor y drws dw i'n cael fy nharo gan oglau braf y coffi ac, ar ben hynny dw i'n clywed y cwsmeriaid yn siarad Cymraeg.

Wel! Dyna beth braf!

Felly os dach chi'n dysgu Cymraeg yn yr ardal ac yn ffansio paned o goffi a chlywed Cymraeg o'ch cwmpas dyma'r lle i fynd.

<https://www.coaltowncoffee.co.uk/>

A oes le yn eich ardal chi ble gallech chi fynd, cael coffi a chlywed y Gymraeg? Beth am fynd yna yn rheolaidd efo'ch ffrindiau yn y dosbarth?

Bydd hynny yn sicrhau eich bod yn cadw eich iaith yn fyw ac yn rhoi cyfle i chi gyfarfod y Cymry Cymraeg. Rob

Llyn Llech Owain

gan Shelagh Fishlock



Dros y Flwyddyn Newydd es i am dro o gwmpas Llyn Llech Owain, yng Ngorslas, ger Llanelli. Mae enw'r llyn yn anarferol, ond mae chwedl leol sy'n ei esbonio.

Amser maith yn ôl, ar y Mynydd Mawr, roedd ffynnon, gyda llechen, sef carreg wastad, yn ei gorchuddio. Ceidwad y ffynnon oedd dyn o'r enw Owain. Un bore, agorodd Owain y ffynnon i roi dŵr i'w geffyl, ond anghofiodd rhoi'r llechen yn ôl. Roedd e ar y ffordd adre pan sylweddolodd bod dŵr y ffynnon yn gorlifo. Dychwelodd yn gyflym i ail-osod y llechen, ac wedyn carlamodd o gwmpas ar ei geffyl. Creodd ffin o gwmpas y ffynnon. Roedd e wedi atal llifogydd dros y tir, ond ers hynny mae llyn yna, wedi'i enwi "Llyn Llech Owain."

Tybed cafodd Owain ei ddiswyddo ar ôl hynny? Dyw'r chwedl ddim yn dweud wrthon ni. Ond erbyn hyn mae'r llyn yn warchodfa natur, ac yn lle hyfryd i ni fynd am dro.

Taith Gerdded i Ddysgwyr

Dydd Sul 24ain Ebrill yn Nhyndyrn

Manylion ar dudalen 14

A wnewch chi basio'r Wennol ymlaen os gwelwch yn dda?

Dw i eisiau cael mwy o bobl i'w ddarllen a mwy o bobl i ysgrifennu erthyglau.

Beth amdano chi? Byddech chi'n hapus i ysgrifennu rhywbeth? Mae'n hawdd. Meddyliwch fod chi'n siarad efo ffrind ac yn sôn am eich gwyliau neu beth bynnag. Wedyn rhwch hynny ar bapur, bydda i'n gwneud yn siŵr bod popeth yn iawn, felly, peidiwch â phoeni

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Taliesin - Abertawe Shirley Valentine

gan Willy Russell

Dydd Mercher 9fed Mawrth

Mae'r ddrama wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg
gan Manon Eames.

Yr actores Shelley Rees sydd yn chwarae'r
brif ran (hi oedd Stacey yn Pobl y Cwm).

Dw i'n sicr bydd y ddrama yma mor ddoniol
â'r fersiwn Saesneg ac mae'n rhaid i ni gael
rheswm i wenu ar ôl yr amser diflas dyn ni wedi
cael dros y ddwy flynedd diwethaf.

Mi ydan wedi colli'r Eisteddfod am ddwy
flynedd erbyn hyn, colli'r cyfle i ni gyd bod
mewn awyrgylch Gymraeg. Dyma rywbeth i'n
cadw ni i fynd tan fis Awst.

Ffoniwch 01792 602060 am eich tocyn

£12 yr un os ydych yr un oed a fi!

Mae'r ddrama ar daith ledled Cymru

Gwelwch dudalen 16

Croeso yn ôl pêl droed Rhan 2

gan Anne Lloyd



Daeth y tymor newydd ym mis Medi 2020,
ond ddaeth y cefnogwyr ddim yn ôl i'r stadia.
Ro'n i wedi adnewyddu fy nhocyn tymor, ond
roedd angen i fi ei wyllo ar fy ngliniadur unwaith
eto! Ond mae'n deg dweud nag o'n i'n disgwyl i'r
sefyllfa parhau trwy'r tymor i gyd.

Yn Lloegr, aeth rhai cefnogwyr yn ôl i'r stadia
ym mis Rhagfyr, ond mewn niferoedd cyfyngedig
iawn. Gwell na dim byd efallai. Yng Nghymru,
doedd dim arwydd o ddychwelyd, yn synhwyrol,
dw i'n credu. Sawl mis wedyn, ar y pymthegfed o

fis Mai, chwaraeodd Caerlŷr yn erbyn Chelsea yn
rownd derfynol y Cwpan FA, o flaen 20000 o
gefnogwyr. Ond newyddion da - cyrhaeddodd y
Swans y 'play offs' eto. Newyddion drwg - byddai
cyfyngiad ar nifer o gefnogwyr a gallai fynd, gyda
thugel o ddeiliaid tocynnau tymor. Taswn i'n
dweud nad ydw i'n lwcus o gwbl yn y loteri,
gallwch chi ddyfalu canlyniad y tugel! Felly, ches
i ddim mwgwd fersiwn arbennig chwaith ar gyfer
y rhai oedd yn llwyddiannus i fynychu'r
stadiwm. Do'n i ddim yn hapus o gwbl. Enillodd
y Swans i gyrraedd y rownd derfynol yn
Wembley.

Newyddion drwg eto - byddwn i'n gweithio
tan saith y bore ddiwrnod y gêm. Do'n i ddim
eisiau gyrru i Wembley ar ôl sifft hir, neu hala
llawer o amser ar fws gyda nifer o ddieithriaid. I
roi halen ar friw, pan ro'n i'n gyrru adre o'r
gwaith, roedd sawl bws ger Sainsburys. Ble
maen nhw'n mynd tybed? Ac wedyn, gwelais i
lawer o bobl yn gwisgo crysau'r Swans - ro'n
nhw'n mynd i Wembley, a ro'n i bron â llefain!
Dim ots yn y diwedd, chwaraeodd y Swans yn
wael, ac aeth Brentford i'r uwch-gynghrair.

Dechreuodd y tymor newydd ym mis Awst
2021, gyda chefnogwyr yn cael mynd i wyllo.
Newyddion drwg eto - byddwn i'n gweithio
unwaith eto ar ddiwrnod y gêm gartref gyntaf!
Ond daeth y 17eg mis Awst - gêm noson yn erbyn
Stoke. Byddwn i'n cael mynd o'r diwedd. Ond
am siom! Chwaraeodd y Swans yn ofnadwy, a
chollon nhw 1-3. Mae'n mynd i fod yn dymor
hir!!

Maen nhw wedi gwella tipyn nawr, ac yn
ddiweddar, es i'r gêm bwysicaf hyd yn hyn y
tymor 'ma. Y Swans yn erbyn Caerdydd. Roedd
yr awyrgylch yn arbennig o dda, chwaraeodd Y
Swans yn dda iawn yn yr ail hanner, ac enillon
nhw'r gêm 3-0. Es i adre'n hapus iawn. Ar y
20fed mis Hydref, roedd y cylch yn gyflawn.
Chwaraeodd y Swans yn erbyn West Brom.
Roedd y gêm a'r canlyniad yn well - enillodd y
Swans 2-1.

"Dyw pêl droed ddim yn fater o fywyd a
marwolaeth, mae'n bwysicaf na hynny"
meddai'r rheolwr pêl droed diweddar, Bill
Shankly, am ei deimladau am y gêm. Ond mae'r
pandemig wedi profi'r gwrthwyneb.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

****Diweddariad Rhagfyr 2021.** Mae'r cylch wedi ail-ddechrau! Gemau tu ôl i ddrysau caeedig, a gemau'n cael eu gohirio oherwydd achosion Cofid yn y garfan. Beth ddaw yn y dyfodol?

Bydden ni'n sicr o glywed! Wel, gobeithio!
Rob

Margaret Lindsay Williams

gan Ann Simons



Dych chi wedi clywed am yr artist o'r enw Margaret Lindsay Williams sy wedi dod o Gymru? Wel, dw i wedi ffeindio plac bach yn y fynwent yn Y Barri er cof amdani - felly, dw i wedi gwneud ychydig o waith ymchwil.

Cafodd Margaret ei geni yng Nghaerdydd yn 1888, merch Samuel Arthur Williams a Martha. Cafodd Margaret wersi preifat cyn mynd i Ysgol Gelf Caerdydd ac yna i'r Pelham Street School of Painting yn Kensington i baratoi ar gyfer mynd i'r Academi Frenhinol yn 1906. Yn yr Academi Frenhinol enillodd nifer o wobrau, gan gynnwys Medal Aur yn 1911 am ei gwaith 'The City of Refuge'. Ar y pryd, hi oedd yr arlunydd ifancaf i ennill Medal Aur yn yr Academi a'r gyntaf o Gymru i wneud hynny.

Hefyd yn 1911 sefydlodd hi ei stiwdio ei hun yn Eaton Terrace yn St Johns Wood (ardal posh iawn, dw i'n meddwl!). Ar ôl ennill ysgoloriaeth deithio, treuliodd ddeunaw mis yn astudio yn yr Eidal a'r Iseldiroedd. Ym mis Mawrth 1914. Cynhaliodd Margaret ei harddangosfa unigol cyntaf, yn dangos tua 58 o'r paentiadau yn y New Galleries yng Nghaerdydd.

Erbyn diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd Margaret yn arlunydd llwyddiannus iawn. Paentiodd hi nifer o weithiau crefyddol - The

Devil's Daughter, The Triumph, The Imprisoned Soul a The Menace, Erbyn canol yr 1920au, roedd Margaret wedi penderfynu canolbwyntio ar waith portreadau. Derbyniodd llawer o gomisiynau, ac er ei bod yn byw yn Llundain, paentiodd bortreadau o nifer o deuluoedd Cymreig blaenllaw, gan gynnwys y teulu Morgan (siop David Morgan) a theulu Novello Davies.

Hefyd, gwnaeth hi bortreadau brenhinol - Tywysoges Margaret a Thywysog Charles, Tywysoges Anne ac o leiaf bum portread o'r Frenhines Elizabeth II. Bu Margaret yn yr Unol Daleithiau o leiaf pum gwaith a phaentiodd hi bortread o'r Arlywydd Warren Harding.

Ni phriododd Margaret a bu farw yn 1960. Fel annibynwraig, cafodd ei hangladd yn y capel yn Windsor Road yn y Barri. Mae plac glas tu allan 9 Windsor Road.

Am fwy o wybodaeth ewch at:

<https://grapefruitmoongallery.com/9583>

Hanes yn y Tir

gan Elin Jones

Gwasg Carreg Gwalch £16-50
Adolygiad gan Richard Cleave



Nid llyfr plant yw Hanes yn y Tir gan Elin Jones, ond llyfr i bawb. Dyna pam mae'r llyfr mor dda nid yn unig i oedolion ond i blant hefyd. I ddeall pwy ydyn ni a ble dyn ni'n mynd mae'n bwysig deall o ble dyn ni wedi dod. Mae Elin wedi rhoi holl stori Cymru i ni yn gynnil ond efo llawer o fanylion pwysig a chyfoes. I ddechrau mae hi'n helpu ni deall sut dyn ni'n dod o hyd i hanes: nid yn unig allan o hen ddogfennau, ond hefyd gan agor ein llygaid ac edrych yn ein cynefin. Gan ddweud holl stori Cymru 'gweledol

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

o'r Cromlechi i'r Senedd' mae Elin yn rhoi i ni fframwaith sy'n helpu ni weld beth sydd wedi mynd ymlaen. Mae hi'n dechrau efo'r oesoedd cynnar, oes y Celtiaid a'r Rhufeiniaid ac Oes y Seintiau a'r Oesoedd Tywyll. Wedyn bwrw ymlaen at Oes y Tywysogion a'r Oesoedd Canol, Oes y Tuduriaid a'r Cyfnod Modern Cynnar, cyn cyrraedd at Oes y Chwyldroadau, Oes Victoria a'r 19 Ganrif. Mae'r ugeinfed ganrif yn cael y teitl bendigedig, Canrif y Werin. Ond dyw hi ddim yn gorffen efo'r Ganrif ddiwethaf. Mae hi'n dod i'r Ganrif yma ac yn gofyn y cwestiwn, Oes Blastig? Oes y Cyfrifiadur? Oes yr Argyfwng Hinsawdd?

Ochr yn ochr â'r stori, mae Elin yn cynnwys 19 o fywgraffiadau byr: ym mhob rhan o'r llyfr mae hi'n dewis un dyn ac un ddynes arwyddocaol. Efo llun gwyh mae Elin yn ail adrodd eu bywydau. Nid yn unig Caradog ond Buddug hefyd; nid yn unig Dewi Sant ond hefyd Melangell; nid yn unig Aneurin Bevan ond hefyd Betty Campbell. Dyna rywbeth mor bwysig, ac yn drist i ddweud, rhywbeth hollol newydd. Petasai ddim ond am hynny mae'r llyfr werth ei ddarllen am fod Elin yn helpu ni i sylweddoli'r rhan bwysig mae menywod wedi chwarae mewn hanes Cymru.

Ble bynnag dyn ni'n byw yng Nghymru dyn ni'n medru gweld hanes y wlad. Ar bob tudalen mae 'na luniau gwyh: mae rhai ohonyn nhw'n lluniau hanesyddol ond mae'r mwyafrif ohonyn nhw'n lluniau cyfoes. Maen nhw'n creu cysylltiad rhwng yr hanes mewn llyfrau a'r olion yn y byd o'n cwrpas, lleoedd dyn ni'n medru ymweld â nhw. Hanes mewn lluniau a hanes mewn geiriau.

Mewn 18 o fapiau syml mae Elin yn dweud hanes Cymru. Dyn ni'n medru gweld dosbarthiad prif gromlechi a phrif gylchoedd cerrig a meini hirion, ieithoedd Celtaidd dros Ewrop a phrif lwythau Celtaidd yng Nghymru yn y cyfnod Rhufeinig. Ar yr un pryd dyn ni'n medru dysgu am ran Cymru yn y fasnach gaethweision: unwaith eto stori dydyn ni ddim wedi dysgu amdano mewn ffordd mor glir cyn rŵan. Ar un map dyn ni'n medru gweld diwydiannau glo, llechi, tun, gwlan, arian ac aur, a phlwm yn 1850; ac wedyn rheilffyrdd Cymru erbyn 1914. Mae dau fap yn dangos teithiau rheilffyrdd o Fangor i Bwllheli ac o Aberystwyth i Abergwaun cyn y 1960au ac ar ôl y 1960au. Mae'n rhyfedd i weld pa mor debyg yw hen fap Dinbych a map modern Google!

Mae Elin yn ein herio ni nid yn unig i ymchwilio yn ein hardal ein hunain ond hefyd i feddwl am wleidyddiaeth heddiw. Dyma hanes Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol a hefyd hanes Tryweryn. Pan dyn ni'n sylweddoli'r frwydr cyn i'r iaith cael ei chydabod a chyn i ni gael Senedd dyna pryd dyn ni'n gwerthfawrogi ein gwlad heddiw ac yn medru gweithio dros wlad yfory.

Diolch i Gwasg Carreg Gwalch am roi i ni llyfr o ansawdd mor dda, wedi cael ei cynllunio mewn ffordd bendigedig. Mae llun y clawr yn cael ei ysbrydoli gan eiriau yn y pennod olaf.

Mae Elin yn gorffen, ar ôl iddi hi sôn am Gymru heddiw, gan gyfeirio at liw crysau pêldroed a rygbi Cymru ac at Wal Goch Cymru. 'Rwy'n hoffi meddwl,' meddai Elin, 'am y bobl fu'n byw ac yn gweithio yn yr adeiladau sydd i'w gweld yn y llyfr hwn fel Wal Goch Anweledig. Bydd pob un ohonynt yn chwifio baner - baner Dewi Sant, neu Glyndŵr, neu faner yn gofyn am Siarter y Bobl neu'r bleidlais i fenywod. Mae Elin yn gofyn dau gwestiwn i bob un ohonom ni: 'Oes gennych chi le yn y Wal Goch? A pha faner fyddwch chi'n ei dewis?'

Hanes y Gymraeg

19eg Ganrif - Rhan 2:

Brad y Llyfrau Gleision (1)

gan Martin Jones

Fel gwelon ni yn yr erthygl diweddaf, roedd rhan gyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gyfnod o anniddigrwydd cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru, a mynegodd y papurau newydd Seisnig, gan gynnwys The Times, y farn taw diffyg addysg ymhlith y Cymry oedd yn bennaf gyfrifol am yr aflonyddwch cymdeithasol hwn. Felly ym 1846, sefydlwyd comisiwn i ymchwilio i gyflwr addysg yng Nghymru ac "yn arbennig i'r modd y gallai'r dosbarth gweithiol gael gwybodaeth am yr iaith Saesneg". Apwyntiwyd tri chomisiynydd i gasglu tystiolaeth a chynhyrchu adroddiad - y tri i gyd yn fargyfreithiwr Anglicanaidd dibrofiad o Loegr. Casglon nhw lwyth o dystiolaeth, ac roedd eu hadroddiad dros fil o dudalennau o hyd. Ond daeth llawer o'r dystiolaeth hon oddi wrth fân fonedd a chlerigwyr Anglicanaidd a oedd yn genfigennus o lwyddiant yr Anghydffurfwyr, ac

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

yn aml, adroddodd y comisiynwyr farn ragfarnllyd y tystion hyn air am air.

Cyhoeddwyd eu hadroddiad y flwyddyn ddilynol, ac ar y cyfan roedd eu hasesiad o gyflwr addysg yn ddeg wrth iddyn nhw amlygu gwendidau difrifol darpariaeth addysg yng Nghymru (er nad oedd y sefyllfa yn Lloegr yn well). Ond aethon nhw ymhell y tu hwnt i'w brîff gwreiddiol, a gwneud sylwadau sarhaus ar yr iaith Gymraeg, ar Anghydfurfiaeth, ac ar ffordd o fyw'r Cymry. O ganlyniad, daeth yr adroddiad i gael ei adnabod fel "Brad y Llyfrau Gleision": cyfeiriadau at ei gloriau gleision ac at "brad y cylyll hirion" pan gafodd y Cymry eu bradychu a'u lladd gan y Sacsonaidd. Mae'r hanesydd, Yr Athro Kenneth Morgan, wedi cyfeirio at yr adroddiad (a'i ganlyniadau) fel "the Glencoe and Amritsar of Welsh History."

O ran addysg, tynnodd y comisiynwyr sylw at ddiffyg ysgolion mewn rhai plwyfi; at gyflwr gwael llawer o adeiladau ysgol; ac at ddiffyg adnoddau ynddyn nhw. Roedden nhw'n feirniadol iawn o ddiffyg hyfforddiant a gwybodaeth yr athrawon. Roedd dim ond 12.5 y cant o athrawon wedi derbyn unrhyw hyfforddiant, ac roedd llawer o ysgolion yn cael eu rhedeg gan hen wragedd, cyn-filwyr, a chymeriadau amheus ac annysgedig. Un o'r swyddi isaf ei statws yn y gymdeithas oedd dysgu yn ôl y comisiynwyr. Ond ar y llaw arall, canmolon nhw rai ysgolion, yn enwedig Ysgolion Sul a dderbyniodd glod am ddysgu darllen Cymraeg i weithwyr cyffredin.

O ran y Cymry, honnodd y comisiynwyr eu bod nhw'n ddiog, yn anwybodus, ac yn anfoesol. Roedd merched Cymru nid yn unig yn flêr ac yn fudr ond hefyd yn anniwair. Ac ar yr Anghydfurfwyr oedd y bai am swcro ymddygiad gwarthus, achos roedden nhw'n annog pobl ifanc i gerdded adref o'r capel yn hwyr yn y nos heb eu goruchwyllo. Mae un cyfeiriad at gymeriad y Cymry'n cynnwys y disgrifiad hwn: "A widespread disregard of temperance, wherever there are the means of excess, of chastity, of veracity, and of fair dealing".

Yn ôl y comisiynwyr, yr iaith Gymraeg oedd gwreiddyn y drwg hwn i gyd. Roedd yr iaith yn addas ar gyfer yr aelwyd a'r capel, ond er mwyn dod ymlaen yn y byd, roedd yn rhaid dod yn rhugl yn Saesneg. Medden nhw: "The Welsh

language is a vast drawback to Wales, and a manifold barrier to the moral progress and commercial prosperity of the people. It is not easy to over estimate its evil effects", ac roedd y Gymraeg "a language of old-fashioned agriculture, of theology, and of simple rustic life".

Cafodd pobl ledled Cymru eu cynddeiriogi gan ddirmyg yr adroddiad tuag at y Cymry, a brysiodd llawer i geisio gwrthbrofi'i gasgliadau ac i ddangos bod merched Cymru'r un mor barchus a phur â'u chymdogion. Roedd "Brad y Llyfrau Gleision" yn ddigwyddiad pwysig ym myd gwleidyddiaeth Cymru hefyd, ond stori arall yw hynny. Ac yn yr erthygl nesaf, gwelwn ni sut effeithiodd yr adroddiad ar yr iaith Gymraeg.

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr **RHAGLEN 2022/ PROGRAMME** **2022**

Sgyrsiau yn Gymraeg am hanes a diwylliant Cymreig ar gyfer Dysgwyr a phobl sy'n hollol rhugl.

Talks in Welsh about Welsh history and culture for learners and fluent speakers.

Bydd y sgyrsiau ar Zoom yn ystod 2022

14 MAWRTH (Zoom – 7 30yh)
Huw Meredydd Roberts - Caffis
Eidalaid yng Nghymru

9 MAI (Ymweliad)
Athro Madeleine Gray - Ymweliad ag
Eglwys Llanilltud Fawr

13 MEHEFIN (Ymweliad)
Bill Jones - Ymweliad â Phriordy Ewenni

12 MEDI (Zoom – 7 30yh)
Richard Gammon - William Randolph
Hearst a Chastell St Donats

10 HYDREF (Zoom – 7 30yh)
Delyth Jenkins - Hanes y Delyn a
Thaith ar Lwybr Arfordir gyda'i Thelyn

14 TACHWEDD (Zoom – 7 30yh)
Sian James - Tair Cymraes Mae Hanes
Wedi Anghofio

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Mis Chwefror 2022

Sgwrs ar Zoom gan Non Vaughan-Williams
Y Cyfrwng Radio: Ei Hanes a'i Hanfod

Adroddiad gan Nesta Humphreys

Mae Non yn uwch-ddarlithydd yn yr Adran Cyfryngau a Chyfathrebu, Prifysgol Abertawe. Yn y gorffennol, mae hi wedi gweithio i'r BBC fel ymchwilydd a chynhyrchydd llawrydd ac mae hi'n parhau i gynhyrchu a chyflwyno rhaglenni yn achlysurol er mwyn cadw cysylltiad gyda'r diwydiant a hwyluso profiadau i fyfyrwyr.

Siaradodd Non am hanes y radio yng Nghymru. Dechreuodd darlledu radio yng Nghymru yn 1923 ac ar 1 Mawrth 1923 cafodd y rhaglen gyntaf yn Gymraeg ei darlledu o Stryd y Castell yng Nghaerdydd. Roedd dadl wedi bod am ddiffyg darlledu yn y Gymraeg am lawer o flynyddoedd. Problem arall oedd diffyg tonfeydd ar gyfer Cymru yn benodol. Roedd yn gam pwysig pan gafodd Cymru ei thonfedd ei hun yn 1937. Wrth gwrs, newidiodd pethau yn 1939 pan ddechreuodd yr Ail Ryfel Byd ac roedd rhaid i'r gwasanaethau cenedlaethol a rhanbarthol gytuno i ddarlledu fel The Home Service.

Ar ôl yr Ail Ryfel Byd, parhaodd radio yng Nghymru ddatblygu gyda chymysgedd o raglenni er bod diffyg sianel i ddarlledu yn Gymraeg yn unig yn broblem o hyd. Beth bynnag, yn 1977 cafodd Radio Cymru ei sefydlu i ddarlledu yn Gymraeg a Radio Wales i ddarlledu yn Saesneg. Dyma'r sefyllfa heddiw.

Pwysleisiodd Non y cyfraniad sylweddol gan fenywod at ddatblygu'r radio yng Nghymru dros y blynyddoedd. Siaradodd Non am fenywod fel Myfanwy Howell, Lorraine Davies, Teleri Bevan a Ruth Price. Chwaraeon nhw rhan bwysig wrth ddatblygu rhaglenni i blant, rhaglenni adloniant ysgafn ac i ddod o hyd i dalent ar gyfer rhaglenni fel Noson Lawen.

Er bod y nifer o bobl sy'n gwrandao ar radio yn fyw ar set radio wedi dirwyo yn ôl ffigurau diweddar, mae radio yn llwyddiannus iawn o hyd. Beth sydd yn wahanol yw bod pobl yn gallu gwrandao ar y radio mewn ffyrdd eraill ac ar ddyfeisiau eraill. Gobeithio bydd y radio yn parhau i fod yn llwyddiannus ond ar hyn o bryd mae trafodaeth am drwydded y BBC a sut y bydd

yn cael ei ariannu yn y dyfodol. Felly mae'n rhaid croesi'n bysedd am ddyfodol darlledu cyhoeddus yng Nghymru ac ym Mhrydain.

Diolch yn fawr iawn i Non am sgwrs ddiddorol dros ben ac i'n haelodau ffyddlon am ddod.

Digwyddiad nesa ydy:-

Nos Lun, 14 Mawrth ar Zoom am 7 30 yh – Caffis Eidalaidd yng Nghymru gan Huw Meredydd Roberts.

Mae Rhaglen 2022 ar gael ar Facebook.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â nestahumphreys@btinternet.com neu edrych ar ein tudalen Facebook.

<https://www.facebook.com/CymdeithasHanesBroOgwr>

Nesta Humphreys

Pwyllgor Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Wedi anghofio pen-blwydd?

Yn sydyn dach chi'n sylweddoli bod pen-blwydd eich chwaer yn agosáu ac, ar ôl chwilio ym mhob man does dim byd sy'n gwneud y tro. Dach chi mewn panig! Os Cardiau Cymraeg dach chi angen beth am fynd yn syth at eu gwefan ardderchog

www.cardiaucymraeg.com

Mae cardiau yno ar gyfer bob achlysur ac maen nhw'n anhygoel o gyflym!

Cefnogwch y byd Gymraeg.



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Gweld Geiriau

gan Val Richards

M	Y	S	B	R	Y	D	O	L	I	DD	U	T	I	S
E	M	H	O	A	N	E	P	O	C	I	N	S	W	A
N	DD	O	N	L	A	W	S	T	R	A	L	I	A	T
A	I	C	I	O	D	H	U	E	A	TH	I	E	S	RH
P	R	A	U	TH	E	N	B	L	I	E	S	I	N	E
LL	I	T	C	O	I	C	FF	A	D	M	E	N	U	S
C	E	N	E	D	L	A	E	TH	O	L	U	A	DD	Y
I	D	E	M	L	A	I	N	R	O	C	B	B	A	M
T	O	H	C	I	D	U	G	A	G	R	B	U	TH	O
E	L	DD	E	F	A	B	A	W	Y	DD	U	S	Y	L
M	A	O	L	N	U	W	D	E	H	O	DD	M	E	TH
U	E	S	A	C	F	LL	U	S	I	S	U	D	FF	T
R	TH	I	B	Y	N	A	D	O	L	I	G	S	H	O
G	I	L	C	R	Y	O	RH	U	T	C	O	B	L	B
A	T	H	O	G	N	A	R	CH	W	I	L	I	O	U

Yn y pos y mis yma mae 12 o eiriau i chwilio amdanyn nhw. Maen nhw'n rhedeg naill ar draws neu i lawr.
Gwnewch eich gorau!

Gweld Geiriau
atebion mis Chwefror

S	T	B	Y	LL	E	M	O	DD	F
F	G	U	E	N	A	R	TH	I	U
O	P	W	B	A	G	H	E	A	LL
N	Y	CH	O	M	W	L	N	L	C
D	B	E	R	O	I	E	A	B	R
A	I	C	E	FF	Y	L	L	E	O
C	O	F	A	I	S	U	W	O	TH
P	E	N	R	TH	F	I	B	I	E
CH	T	U	H	E	W	M	O	A	C
A	T	E	I	G	R	E	N	U	L

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

Teithiau Maes Mis Mawrth

Y De a'r Canolbarth

5-3-22 Aardal y Cribarth

Taith ddaearegol a hanesyddol, tua 7 milltir, yn ardal Mynydd y Cribarth. Peth dringo i ddechrau ac yn esmwytho wedyn. Fe ddilynwn ran o afon hynafol sych i orffen.

Man Cyfarfod: Maes Parcio Dan-yr-Ogof ar yr A4067. **SA9 1GJ (cod post agosaf)**

SN842164

Arweinydd: Arwel Michael

12-3-22 Dim Taith

19-3-22 Aberteifi i Gastell Cilgerran

Taith tua 6.5 milltir yn dilyn lein Y Cardi Bach heibio Corsydd Teifi ag olion y chwareli llech. Golygfeydd o Gastell Aberteifi a cheunant trawiadol Afon Teifi.

Taith ar y gwastad, a fydd yn llawn hanes a ffeithiau difyr. Peth tir mwdlyd drwy goedwig, bydd modd ymestyn neu leihau'r daith. Cyfle am goffi ar y diwedd.

Man cyfarfod: I osgoi'r dre, os ydych chi'n teithio o Aberystwyth neu Castellnewydd Emlyn ewch i'r ail gylchdro a dilyn yr arwydd at Stad Ddiwydiannol Pentood /Mart Anifeiliaid. Troi i'r dde cyn y bont i Station Road

SA43 3AD SN180457

Arweinydd: Geoff Davies

26-3-22 Y Tair Carn Uchaf ac Isaf

O'r castell, dros Afon Cennen ac i fyny'r Mynydd Du i'r carneddi. Nôl heibio Llygad Lluchwr. Taith tua 7 milltir, diffyg llwybrau mewn mannau a rhai llethrau serth.

Man cyfarfod: Maes parcio Castell Carreg Cennen, Trap **SA19 6UA (cod post agosaf)** **SN666194**

Arweinydd: Richard Davies

Gwynedd a Môn

Am fanylion ewch at:

<https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/gwynedd-a-mon-hydref-a-gaeaf-2020/>

Gogledd Dwyrain

Am fanylion ewch at:

<https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/gweithgareddau-gogledd-ddwyrain-hydref-2020/>

Dysgwyr!

Gŵyl Cerdded Cas-gwent

Taith 29

Mae'r daith yma yn rhad ac am ddim ond does dim ond lle i 20 felly **bydd rhaid cofrestru** - www.walksinchepstow.co.uk

Cyfle gwyh i ddysgwyr gyfarfod siaradwyr Cymraeg a dysgwyr eraill

Dydd Sul 24 Ebrill

Rhaeadrau Cleddon (Taith Gerdded Cymraeg)

Pellter: 5 milltir (llwybr cylchol)

Hyd: 3-4 awr

Anhawster: Hawdd i gymedrol

Dod â: Diodydd, byrbrydau aamera

Man Cyfarfod a Pharcio:

10:00am Maes parcio Whitestone, Heol Trelleck, Tyndyrn NP16 6NF ST522029

Dim cŵn mae gen i ofn

Byddwn ni'n dechrau yn y maes parcio. Mae'n daith gerdded fer i fyny'r allt i'r rhaeadr. Yma, bydd amser i archwilio rhaeadrau hardd Cleddon. Wedi hynny, cerddwn drwy'r goedwig hynafol gyda golygfeydd bendigedig dros Ddyffryn Gwy, cyn dychwelyd i'r maes parcio.

Tyndyrn - Tintern

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Geirfa

Dewi Sant

Chwedl - tale
Greal Sanctaidd - Holy Grail
Draenen Sanctaidd - Sacred Thorn
Byw yn gytûn - to live in harmony
Ymerawdwr - emperor
Ymerodraeth - empire
Bygythiad - threat
Gerllaw - nearby
Nodweddion iachau - healing properties
Cysegru - to consecrate
Ymledu'r gair - to spread the word
Cwrwgl - coracle
Môr y Canoldir - Mediterranean Sea
Â balchder - with pride

Beth am Daith Gerdded?

Fforiwr - explorer
Swydd Amwythig - Shropshire
Hanes diwydiannol - industrial history
Hawliau - rights
Placiau glas - blue plaques
Treftadaeth - heritage
Sied nwyddau - goods shed
Ailddatblygu - redevelop
Goleudu Chwitfordd - Whitford Lighthouse
Cynllunio - to design
Gwlypdiroedd - wetlands
Byrbryd - snack
Gylfinir - Curlew
Drudwen - starling
Grwgnach - to complain
Tomen sbwriel - rubbish tip
Trawsnewid - to transform
Llanw uchel - high tide
Mwnt - mount (remains of an old castle)
Dolau - meadows
Coetir - woodland

Y Gwanwyn

Menig - gloves
Gorwel - horizon
Gardd flêr - untidy garden
Chwyn - weeds
Cyfarfod boreol - morning assembly
Cystadleuaeth - competition
Chwant bwyd - appetite

Ysbrydolaeth

Ysbrydolaeth - inspiration

Hyd at hyn - up to now
Difaru - to regret

Coffi Coaltown

Malu ffa - to grind beans
Ansawdd - quality
Cyflenwad - supply

Llyn Llech Owain

Ffynnon - a well
Llechen - a slate
Gorchuddio - to cover
Gorlifo - to overflow
Ail-osod to replace
Carlamu - to gallop
Ffin - boundary
Diswyddo - to be sacked
Gwarchodfa natur - nature reserve

Croeso yn ôl Pel Droed

Cliniadur - laptop
Cyfyngedig - restricted
Synhwyrol - sensitive
Caerlŷr - Leicester
Tugel - ballot
Mwgwd - face mask
Rownd derfynol - final round
Rhoi halen yn y briw - to rub salt in the wound
Cylch yn cyflawn - the circle is complete
Gwrthwyneb - opposite
Drysau caeedig - closed doors
Y garfan - the team

Hanes yn y Tir

Cryno - compact
Cyfoes - contemporary
Dogfennau - documents
Cynefin - habitat, neighbourhood
Gweledol - visible
Ochr yn ochr - side by side
Bywgraffiad - biography
Arwyddocaol - significant
Ail-adrodd - to re-tell
Trist i ddweud - sad to say
Hanesyddol - historical
Cysylltiad - connection
Olion - traces
Dosbarthiad - distribution
Cylch cerrig - stone circle
Meini hirion - standing stones
Masnach caethweision - slave trade
Diwydiant - industry

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Ymchwilio - research
Gwleidyddiaeth - politics
Brwydr - battle
Cydnabod - recognise
Anweledig - invisible

Hanes y Gymraeg

Annidigrwydd - uneasiness
Aflonyddwch - unrest
Dosbarth gweithiol - working class
Bargyfreithiwr - barrister
Dibrofiad - inexperienced
Tystiolaeth - evidence
Mân fonedd - lesser gentry
Anghydfurfwyr - nonconformists
Rhagfarnllyd - biased
Amlygu - to reveal
Sarhaus - insulting
Cloriau gleision - blue covers
Diffyg adnoddau - scarcity of resources
Hyfforddiant - training

Annysgedig - uneducated
Anwybodys - ignorant
Anfoesol - immoral
Anniwair - unchaste
Swcro - to succour
Goruchwilio - to supervise
Gwreiddyn y drwg - source of the problem
Cynddeiriogi - to infuriate
Dirmyg - scorn

Cymdeithas Hanes

Cyfryngau - media
Cyfathrebu - communication
Ymchwilydd - researcher
Cynhyrchydd llawrydd - freelance producer
Yn achlysurol - occasionally
Hwyluso - to facilitate
Tonfeydd - wavelength
Rhanbarthol - regional
Pwysleisio - to emphasise
Adloniant ysgafn - light entertainment

Shirley Valentine

Mis Mawrth-Ebrill 2022

3-5 Theatr Soar, Merthyr
8 Lyric Sir Gâr/Carmarthen
9 Taliesin Abertawe/Swansea
10 RWCMD/CBCDC Caerdydd/Cardiff
11 Theatr Felinfach Dyffryn Aeron
12 Canolfan Y Celfyddydau Aberystwyth Arts Centre
14 Theatr Brycheiniog Aberhonddu/Brecon
16 Y Stiwt, Rhosllannerchrugog
17 Galeri Caernarfon
18 Hafren, Drenwydd/Newtown
20 Theatr Torch Theatre
Aberdaugleddau/Milford Haven
22 Sefydliad Y Glowyr Coed Duon Blackwood Miners' Institute
23 Theatr Y Parc a'r Dâr Park & Dare Theatre Treorci/Treorchy
24-26 Y Neuadd Les The Welfare Ystradgynlais
29 Canolfan Y Celfyddydau Memo Arts Centre Y Barri/Barry
30-1 Pafiliwn Porthcawl Pavillion